University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Canllaw byr ar ychwanegu allbynnau at Pure (MEDI 2022)

Mathau o allbwn ymchwil yn Pure

Mae Pure yn caniatáu ichi greu cofnod i gynrychioli llawer o fathau o allbynnau ymchwil sy'n berthnasol i'ch gwaith. Mae hyn yn cwmpasu ymchwil 'a gyhoeddwyd yn draddodiadol' megis erthyglau cyfnodolion, penodau llyfrau neu drafodion cynadleddau, ond mae hefyd yn cynnwys llawer o fathau eraill o allbwn ymchwil, megis patentau, protocolau, perfformiadau, arddangosfeydd ac allbynnau eraill nad ydynt yn destunol.

Mynediad staff i Pure: https://pure.southwales.ac.uk/admin (mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair arferol)

Archwiliwr Ymchwil Prifysgol De Cymru: https://pure.southwales.ac.uk/cy

Allbynnau ymchwil y dylech eu hychwanegu at Pure

Rhaid i chi ychwanegu fersiynau mynediad agored sy'n cydymffurfio o erthyglau cyfnodolion a phapurau cynhadledd cyhoeddedig sydd wedi'u derbyn i'w cyhoeddi.

Dyma'r rhai pwysicaf oherwydd dyma'r rhai sy'n cael eu cynnwys ym mholisi Mynediad Agored y REF. Mae'r polisi hwn yn nodi bod yn rhaid ichi adneuo fersiwn mynediad agored o'r papur sy'n cydymffurfio mewn ystorfa o fewn tri mis i'w dderbyn i'w gyhoeddi. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r polisi hwn, ni fydd eich papur yn gymwys i'w gyflwyno yn y REF.

Ar gyfer erthyglau cyfnodolion a phapurau cynhadledd cyhoeddedig - RHAID i destun derbyniol yr awdur ac a adolygwyd gan gymheiriaid gael ei adneuo yn Pure o fewn 3 mis i'w dderbyn. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch pa fersiwn yw'r un cywir y mae'n rhaid ei hadneuo, cysylltwch â Llyfrgellydd Ymchwil PDC.

Ar gyfer pob allbwn papur cynhadledd nad yw'n gyfnodolyn/a gyhoeddwyd, dylech greu cofnod yn Pure cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi neu y bwriedir ei ryddhau.

Mae'n bwysig bod awduron ac ymchwilwyr yn deall beth yw 'cydymffurfiaeth OA'. Pan fyddwch yn creu cofnod ar gyfer erthygl mewn cyfnodolyn yn Pure bydd y wybodaeth am gydymffurfiaeth yn cael ei harddangos ond os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â Llyfrgellydd Ymchwil PDC.

Er nad yw'n ofyniad ar hyn o bryd ym Mholisi Mynediad Agored PDC rydym yn annog awduron i adneuo'r llawysgrifau derbyniol o benodau llyfrau ac allbynnau ffurf hir, lle mae'r cyhoeddwr yn caniatáu hyn o dan eu Polisi Mynediad Agored Gwyrdd. Gellir ceisio cyngor pellach gan Lyfrgellydd Ymchwil PDC. Rydym hefyd yn annog staff ac ymchwilwyr PDC i ychwanegu'r manylion am eich cyhoeddiadau eraill ac allbynnau ymchwil nad ydynt yn gyfnodolion fel eu bod yn ymddangos ar eich tudalen Proffil o Archwiliwr Ymchwil PDC.

Tair ffordd o ychwanegu allbynnau ymchwil at Pure

Cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Add content' ar eich tudalen proffil Pure, dewiswch 'Research output' a dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

• 'Create from template': dewiswch y templed priodol a llenwch y manylion â llaw

• 'Import from online source': chwiliwch gronfa ddata i lenwi eich templed yn awtomatig (gallwch ddefnyddio'r opsiwn hwn os oes gennych y DOI ar gyfer y cyhoeddiad)

• ‘Import from file’: llanlwythwch mewn swmp os yw eich portffolio o gyhoeddiadau ar fformat BibTex neu RIS. Os ydych wedi symud o brifysgol a ddefnyddiodd Pure neu a ddefnyddiodd gadwrfa sefydliadol, dylech allu cael y ffeil hon ganddynt

Llenwi'r templed

• Mae meysydd sydd wedi'u marcio â seren goch yn orfodol, rhaid i chi gwblhau'r rhain er mwyn gallu cadw'r cofnod

• Mae ychwanegu dyddiad derbyn yn y statws cyhoeddiad yn bwysig, mae angen i ni gael hwnnw i olrhain cydymffurfiaeth mynediad agored. Os na wyddoch yr union ddyddiad derbyn, defnyddiwch ddyddiad cyntaf neu ddyddiad olaf y mis agosaf at y derbyniad (e.e., os gwyddoch fod yr erthygl wedi’i derbyn ym mis Gorffennaf 2022 gallwch ddefnyddio 01/07/22 neu 31/07/22 fel dyddiad derbyn amcangyfrifedig)

• Ychwanegwch gymaint o wybodaeth â phosibl i wneud eich ymchwil yn fwy amlwg. Os ydych chi'n gyfyngedig o ran amser, ychwanegwch y meysydd gorfodol

• Rhaid i chi glicio ar ‘Save’ cyn cau eich cofnod

• Bydd Llyfrgellydd Ymchwil PDC yn gwirio manylion yr holl allbynnau ymchwil

Statws cyhoeddi

• Paratoi: y dyddiad y mae'r gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyflwyno. Os ydych chi’n ychwanegu cofnodion fel ‘in Preparation’ neu ‘Submitted’ rydym yn argymell eich bod yn dewis gosod gweledegd y cofnod fel ‘Backend – restricted to Pure users’ fel na fydd yn ymddangos ar y porth ymchwil

• Submitted: dyddiad cyflwyno'r gwaith i gyfnodolyn i'w gyhoeddi o bosibl

• Acceptance date: y dyddiad y caiff y gwaith ei gymeradwyo, yn dilyn yr holl newidiadau yn yr adolygiad gan gymheiriaid. Er mwyn cydymffurfio â Mynediad Agored dylech lanlwytho'r llawysgrif a dderbynnir, y fersiwn derfynol (a adolygir gan gymheiriaid) o'r testun heb y cynllun a'r fformat o'r fersiwn derfynol a gyhoeddwyd. Yn ddiofyn, mae gweledegd y cofnod wedi’i osod i ‘Public – No restriction’ a bydd yn ymddangos ar y porth ymchwil unwaith y bydd wedi’i ddilysu gan Lyfrgellydd Ymchwil PDC

• E-pub ahead of print: y dyddiad y trefnwyd bod y fersiwn wedi'i fformatio gan y cyhoeddwr ar gael ar lwyfan y cyhoeddwr

• Published: y dyddiad y cyhoeddwyd y gwaith yn ffurfiol. Gellir diweddaru'r cofnod Pure i gynnwys cyfaint, rhifyn a rhifau tudalennau

• Unpublished: dylid defnyddio'r categori hwn ar gyfer unrhyw allbwn nad yw wedi'i gyhoeddi'n ffurfiol na'i gyflwyno mewn fforwm ehangach.

Awduron a chysylltiadau

I ychwanegu awduron ychwanegol at allbwn, cliciwch ar ‘Add person…’ a naill ai dewiswch enw o’ch cyd-awduron blaenorol yn y rhestr awduron a awgrymir, chwiliwch am awdur PDC, neu crëwch berson allanol.

Os sylwch ar gofnod sy’n bodoli eisoes sy’n eich rhestru fel ‘External Author’ cysylltwch â Llyfrgellydd Ymchwil PDC a byddant yn ei drosglwyddo i’ch cofnod awdur mewnol.

Diffiniadau o gategorïau gweledigedd

• ‘Public – No restriction’: gellir gweld y cofnod yn gyhoeddus ar Research Explorer PDC (ein cadwrfa gyhoeddus)

• ‘Campus - Restricted to specific IP range’: ni ddefnyddir yr opsiwn hwn, peidiwch â defnyddio’r categori hwn

• ‘Backend - Restricted to Pure users’: dim ond defnyddwyr mewnol Pure all weld y cofnod, ni fydd yn cael ei arddangos ar Research Explorer PDC. Rydym yn argymell defnyddio'r opsiwn hwn os ydych yn ychwanegu cofnodion o allbynnau a gyflwynwyd neu'r rhai sydd ar gam cynnar iawn o'u cyflwyno

• ‘Confidential - Restricted to associated users and editors’: Mae hyn wedi’i gyfyngu i greawdwr y cofnod a golygyddion yn Pure, mae’n cynnwys y gweinyddwyr Pure yn RISe a Gwasanaethau Llyfrgell. Rydym yn argymell defnyddio Cyfrinachol ar gyfer unrhyw ddeunydd sydd ag unrhyw gyfyngiadau oherwydd ei fod yn fasnachol gyfrinachol neu gyda materion diogelwch neu sensitifrwydd

Newid gweledigrwydd cofnod

Ar gyfer y rhan fwyaf o gofnodion y gosodiad diofyn yw ‘Public - No restriction’. Os ydych am newid y gweledigedd ar ôl i rywbeth gael ei ddilysu, cysylltwch â Llyfrgellydd Ymchwil PDC gyda manylion y cofnod yr ydych am gyfyngu mynediad iddo.

Canllawiau Mynediad Agored

Mae gwybodaeth sefydliadol PDC ar yr hyn sydd angen i chi ei adneuo i gydymffurfio â Mynediad Agored yn cael ei harddangos ym mhob cofnod Cyfnodolyn y byddwch yn ei greu yn Pure. Mae’r wybodaeth yn cael ei harddangos mewn testun mawr yn yr adran rhwng gwybodaeth y Cyfnodolyn a’r adran sydd â’r label ‘Electronic Version(s) related files and links’

Ychwanegu dogfennau testun llawn

Ar gyfer cyfnodolion a phapurau cynhadledd cyhoeddedig - er mwyn bodloni Polisi Mynediad Agored PDC rhaid i chi atodi llawysgrif yr awdur a dderbynnir o fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr erthygl.

Yn yr adran sydd wedi’i labelu ‘Electronic version(s) and related files and links’

- Cliciwch ar ‘Add electronic version’
- Dewiswch ‘Upload an electronic version’

• Cliciwch ‘Browse’ a dewiswch y ffeil rydych chi am ei hychwanegu

• Dewiswch y fersiwn mwyaf priodol o dan 'Document version'. Yn y rhan fwyaf o achosion, 'Accepted author manuscript' ddylai hon fod. Dyma'r fersiwn derfynol o'r testun a adolygir gan gymheiriaid ond heb y gosodiad a'r fformat a ychwanegir gan y Cyhoeddwr/Cyfnodolyn yn y fersiwn terfynol. Dim ond os yw wedi'i chyhoeddi gyda thrwydded Mynediad Agored neu ddiffiniad clir o'r drwydded sydd wedi'i rhannu fel Mynediad Agored y dylech lanlwytho'r fersiwn derfynol a gyhoeddwyd

• Dewiswch 'Closed' o dan 'Public Access to File'. Bydd Llyfrgellydd Ymchwil PDC yn sefydlu'r embargo a'r drwydded sy'n ofynnol gan y cyhoeddwr ac yn sicrhau bod yr allbwn yn dod yn Fynediad Agored ar yr amser priodol

• Gellir gadael y meysydd eraill yn wag. Cliciwch ar 'Create' i orffen.

• Cofiwch glicio ar 'Save' ar waelod y cofnod i gadw unrhyw newidiadau.

Proses dilysu allbwn

Dilysir yr holl allbynnau ymchwil a'r dogfennau atodedig ar gyfer Mynediad Agored gan Lyfrgellydd Ymchwil PDC. Eu nod yw dilysu'r cofnodion o fewn 7 diwrnod gwaith, ond gall gymryd ychydig yn hirach yn ystod cyfnodau prysur.

Ar gyfer erthyglau cyfnodolion a phapurau cynhadledd (cyhoeddedig) - os yw'r papur wedi'i dderbyn ac nad ydych yn adneuo fersiwn o'r papur sy'n cydymffurfio, cewch eich hysbysu trwy e-bost o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl creu'r cofnod yn Pure. Bydd yr e-bost hwn yn amlinellu beth sydd angen i chi ei wneud i gydymffurfio.

Cymorth pellach:

Mynediad Agored a Chydymffurfiaeth Mynediad Agored

Rydym yn cynnal sesiwn, 'Introduction to Open Access', fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Ymchwil ac Arloesi ac mae sesiwn debyg hefyd yn rhan o'r Hyfforddiant Ysgol Graddedigion ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig. Gallwch archebu lle trwy iTrent i fynychu sesiwn y Rhaglen Datblygu Ymchwil ac Arloesi a gall Ymchwilwyr Ôl-raddedig gadw lle ar gyfer y sesiwn honno trwy PhD Manager. Os yw'n well gennych gael apwyntiad unigol i drafod unrhyw beth sy'n ymwneud â Mynediad Agored a chydymffurfiaeth, cysylltwch â Nicholas Roberts Llyfrgellydd Ymchwil PDC i drefnu sesiwn un-i-un.

Mae yna hefyd sesiwn 'Introduction to Pure' ar gael fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil ac Arloesi lle rydym yn ymdrin â hanfodion cydymffurfio â Mynediad Agored.

Mae gennym nifer o sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw ar-lein sy'n ymdrin â phynciau sy'n ymwneud â Mynediad Agored, ac mae'r rheini ar gael i holl staff a myfyrwyr PDC ar unrhyw adeg os ydych am fynd drwyddynt ar-lein.

- Introduction to Open Access - 1 awr
- How to be Compliant with the REF Open Access Policy at USW – 20 munud
- How to upload a paper into Pure – 15 munud
- Read & Publish Deals (Open Access Publishing options) – 20 munud

Mae yna hefyd adran ar gyfer adnoddau Mynediad Agored ar ardal Mynediad Agored ac RDM tudalennau gwe Ymchwil, mae hyn yn cynnwys Polisi Mynediad Agored PDC.

Ac os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch yn ymwneud â Mynediad Agored neu gydymffurfio, cysylltwch â Nicholas Roberts, Llyfrgellydd Ymchwil PDC.

Cyswllt:

Nicholas Roberts

Llyfrgellydd Ymchwil

01443 654051 (est. mewnol 654051),

nicholas.roberts@southwales.ac.uk | openaccess@southwales.ac.uk

E-bost cyffredinol ar gyfer adrodd am faterion cyffredinol gyda Pure – puresupport@southwales.ac.uk